

WES: Yeah?

ELS: Yeah.

WES: Ma' mis neu rywbeth cyn dy *exams* di.

ELS: *Exams* pwy?

WES: Dwi ddim yn 'u gwneud nhw.

ELS: Beth?

WES: I beth? Fydd neb yn becco.

ELS: Ti'n lwcus. Mae 'na'n *so not fair!*

SAIB.

Fi 'di cwmpo ma's 'da Mam a Dad yn barod heddi. Byddan nhw'n mynd yn seico os bydd rhywun yn dod adre 'da fi.

WES: O.

ELS: A ti ddim isie gweld Dad mewn tymer, cred fi!

WES: Na? (CURIAD) Benes i lan yn *casualty* un tro ar ôl i Dad wylltio.

ELS: (WEDI CAEL BRAW) Do fe? (CURIAD) Bwlis, nag y'n nhw? Pob un.

WES: Yeah. Fydde fe ddim yn digwydd nawr dwi'n deud 'thot ti. (YN GRAC) Ac os yw dy dad di'n cyffwrdd â ti 'to ...

ELS: Beth?

WES: Os yw dy dad di'n dechre arnat ti 'to, jyst dwed, OK?

ER NAD YW TAD ELIN YN EI CHURO HI, NID YW HI'N CYWIRO CAMSYNIAD WES.

ELS: (CURIAD) *Yeah*. (CURIAD) OK.

WES: Wna i sortio fe ma's i ti.

ELS: Cŵl: (CURIAD) Diolch.

SAIB.

Bydd pethe'n wahanol ar ôl yr arholiadau. Fi'n addo. Gallwn ni dreulio mwy o amser 'da'n gilydd a phethe...

WES: *Yeah?* (CURIAD) Fi 'rioed 'di bod ma's 'da neb mor hir â 'na.

ELS: (YN BRYDERUS) O! nag wyt ti?

WES: (YN SYLWI AR EI PHRYDER) Na.

ELS: (YN SIOMEDIG) O!

SAIB.

WES: (YN MANTEISIO AR EI HANSICRWYDD) O's amser 'da ti ar ôl ysgol? Cyn mynd adre?

ELS: I beth?

WES: (YN YMBILGAR) Mynd draw i le Ben?

ELS: Lle Ben?

WES: Ma' lle Ben yn OK nag yw e?

ELS: (YN ANSICR) Wel ... yyyym ...

WES: Lle gwell na lle Steve!

ELS: (YN BETRUS) Yyyym. Fydd 'na rywun gatre?

WES: Bydd. Ond aiff e ma's os dwi'n gofyn iddo fe.

ELS: O?

WES: *Yeah*. Os ni isie.

ELS: (YN ANSICR) O.

WES: Sdim unman arall 'da ni o's e?

ELS: (CURIAD) Wel ... (YN ANSICR) OK!

WES: *wedi cyrraedd y pwynt o kael rhyw*
Ni yn *serious* nag y'n ni?

ELS: Y'n ni?

WES: Wel fi yn. Wyt ti?

ELS: *Yeah!* (CURIAD) (YN FWY SICR) *Yeah*. OK

WES: *serious*
Yeah? (WRTH EI FODD) Siŵr?

ELS: Yyym...

WES: Cŵl. (CLYWIR CLOCH YR YSGOL) Be sy 'da ti prynhawn 'ma?

ELS: Maths gynta'. Be sy 'da ti?

WES: Dwi'n mynd i'r dre'. Ond lle Ben OK? Hanner awr wedi tri.

ELS: (YN ANSICR) O wel, ... dwi'm yn gwybod. Falle!

WES: O *come on* Els! Plis? (MAE WES YN EI CHUSANU HI.)
Dwi'n dy garu di.

ELS: (WEDI'I PHLESIO) Beth wedest ti?

WES: Dim. *cheeky*
chwaereus

ELS: Do fe wnest ti.

WES: Naddo.

ELS: Glywes i ti Wes. (CURIAD) Dwi'n dy garu di 'fyd. Ond ti wedodd e gynta' y tro hyn! (MAE HI'N EI GUSANU'N GYFLYM.)
Dwi'n mynd. Wela i di. OK?

WES: Tŷ Ben?

ELS: (YN SICR) Ie.

WES: *Definite?*

ELS: *Yeah* OK!

MAE ELIN YN GADAEL. MAE WES YN DATHLU.

WES: *Yes!*

CERDDORIAETH.

SWŶN PLANT MEWN DOSBARTH.

MAE RHYS WEDI CYNHYRFU, AC MAE'N STWFFIO
CREISION I'W GEG. MAE ELIN YN CYRRAEDD WEDI
BLINO'N LÂN. MAE'N GORWEDD GAN ROI EI PHEN AR
LIN RHYS, A MALU EI GREISION.

ELS: (YN FALCH O GAEL GORFFWYS) *Yes!*

RHYS: (MEWN PANIC) Na! (AM Y CREISION) Ti 'di rhoi gwallt yn 'y
mag i!

ELS: Rhys! Paid â gweiddi!

RHYS: Lle oeddet ti neithiwr? *Major disaster!*

ELS: *Yeah?*

RHYS: Deg o'r gloch y nos, a golles i bob dim!

ELS: (YN HANNER GWRANDO) Ma' *doubt* 'da fi!

RHYS: Mi wnes i! (YN SYLWI BOD ELS WEDI BLINO) Els! Be sy? Wyt
ti'n OK?

ELS: Dwi'n *shattered* Rhys.

RHYS: *Yeah?*

ELS: *Yeah. So ca' dy ben, reit?*

RHYS: Pam?

ELS: Ti'n rhoi pen tost i fi!

RHYS: Naci! Pam bo chdi'n *shattered*?

ELS: *Sleep-over* Rhys! 'Da Sara.

RHYS: Ti byth gartra.

ELS: *I wish!*

RHYS: Ers wythnosa.

ELS: So? (CURIAD) (AM Y CREISION) Pam bo ti'n stwffio'r rheina?

RHYS: *Stressed* Els.

ELS: Pa flas?

RHYS: *Eating disorder.*

ELS: Eh?

RHYS: Halen a finegr!

ELS: *O puke!*

RHYS: *Comfort eating*, Els. Achos bydd rhaid i fi 'neud y cyfan eto rŵan.

ELS: (WEDI DRYSU) Beth?

RHYS: Daearyddiaeth.

ELS: Beth?

RHYS: Gwaith cartre.

ELS: (YN COFIO NAD YW HI WEDI'I WNEUD) O na!

RHYS: Ac os bydd fy nghyfrifiadur i'n crasho eto ... bydda i'n ... bydda i'n ... 'i luchio fo allan drwy'r ffenest.

taflu fe mas o'r ffenest

ELS: Ar ben car newydd dy dad di?

fallu (Curiad)

- RHYS: Ia. (CURIAD) Wel naci! Hwyrach ddim!
- ELS: Pam ma' angen car fel'na arno fe?
- RHYS: Be! TVR, Pedwar litr, chwe silindr ...
- ELS: *Whatever!* Ydy e ar y *pull* neu beth?
- RHYS: Elin! Ti'n siarad am Dad! Mae o'n gorfod teithio lot dydi, efo'i job o. Mae o angen car da. (CURIAD) Dwi'n mynd i ga'l Subaru Impreza neu (MAE'N ENWI RHESTR O GEIR 'SPORTY') pan dwi'n dechra dreifio. (CURIAD) O'dd Sara'n ca'l pen-blwydd?
- ELS: Beth? (YN DEALL) O! Na.
- RHYS: *Girly night in ia?*
- ELS: O gad fi fod Rhys.
- RHYS: *Nose-spas a brain masks a phetha?*
- ELS: Rhys!
- RHYS: Gwylio *chick-flicks* tan oria mân y bora! Be o'dd o? *Miss Congeniality* ia? (YN CANU) *He wants to love you. He wants to marry you!* (YN SIARAD) Oeddech chi'n gwisgo pyjamas? O! 'swn i 'di mwynhau bod yna.
- ELS: Rhys! Dwi'n *shattered*, OK?
- RHYS: OK. (CURIAD) Els.
- ELS: Beth?
- RHYS: Ga i fenthyg dy un di?
- ELS: Beth?

RHYS: Y gwaith cartre. Plis? Dim ond y tro yma. Wna i 'neud beth bynnag ti isio. *I'll be your slave!* (CURIAD. YN SYLWEDDOLI) O na! Ti'm 'di 'neud o, naddo?

ELS: Nagw.

RHYS: O *no! No! Naaaaaa!*

ELS: Rhys!

RHYS: *Biatch!* Dwi'n *doomed* rŵan!

ELS: Jyst gad fi fod nawr 'nei di?

RHYS: O'n i isio'i fenthyg o!

ELS: O soril!

RHYS: O wel, o leia bydd y ddau ohonon ni'n cael *bollocking* rŵan, ddim jyst fi!

ELS: Dwi'm yn becsu.

RHYS: Wel mi ydw i! – Dim llawer, *obviously!* – Ti'n meddwl bydd Mr Jones yn 'y nghredu i? – *cydnabodol*

ELS: (YN PRYFOCIO) Na.

RHYS: (YN BENDANT) Ond dwi'n deud yr *honest-to-God truth!*

ELIN: *Yeah, right!*

RHYS: (DAN DEIMLAD) Crasho wnaeth o.

ELS: Rhys.

RHYS: Dwi'n deud 'that ti! Y cyfrifiadur. Crasho.

ELS: Fi'n gwybod.

RHYS: (DAN DEIMLAD) *Piece of...*

ELS: Rhys!

RHYS: Be?

ELS: Jyst ca' dy ben OK? Sdim ots 'da fi beth sy wedi crasho 'da ti. Jyst *log off* wnei di.

RHYS: Be?

ELS: *Log off!*

RHYS: E?

ELIN: *Now!*

CLYWIR SŴN TRAFFIG. MAE WES AR OCHR FFORDD
BRYSUR. MAE'N CAEL SGWRS FFÔN GYDA'I WEITHIWR
CYMDEITHASOL. -neun gofal

(WES:)

*Where? (CURIAD) (YN GWRANDO) No way! I'm all-right where I
am aren't I? (CURIAD) (YN GWRANDO) Why can't I? (CURIAD)
(YN GWRANDO) They're having you on Mike. (CURIAD) (YN
GWRANDO) I do sleep there. (CURIAD) (YN GWRANDO) Yeah.
OK! OK! Sometimes I don't.*

SAIB. YN GWRANDO.

*Well why can't I go back to where I was before them then? Yeah. They were
OK. (CURIAD) (YN GWRANDO) Oh. (CURIAD) (YN
GWRANDO) No way man! No way!
Why can't I go back to my old man's house then? (CURIAD) (YN
GWRANDO) I know he is. (CURIAD) (YN GWRANDO) I know
he doesn't. I could handle it now. I could! I know what they're like.
(CURIAD) (YN GWRANDO) Why can't I? (CURIAD) (YN
GWRANDO) No. You tell me! You're the social worker. (CURIAD)
(YN GWRANDO) OK. Yes I'll go. Tonight. Yes. I'll say I'm sorry. But it's
not fair. Tonight. (CURIAD) Yes. OK!*

CERDDORIAETH.

FFLAT BEN.

MAE'R AWYRGYLCH YN DDIFLAS. MAE WES YN YFED
FODCA YN SYTH ALLAN O BOTEL. MAE'N ANFON NEGES
DESTUN. MAE ELIN WEDI PWDU.

ELS: Pwy ti'n tecstio?

WES: Steve?

ELS: Pam ti'n 'i decstio fe? (CURIAD) Wes. Fi isie siarad 'da ti.

WES: Wel fi ddim isie OK? (CURIAD) Ti'n rhy *serious* weithie. 'Na'r cwbl
wedes i.

ELS: Nag y't ti'n *serious* amdano i 'fyd?

WES: *Yeah.*

ELS: Wel os y't ti, - gofyn i Ben. (CURIAD) Plŷs? (CURIAD) Bydde Ben
yn fodlon i ni aros fan hyn falle. Os byddet ti'n gofyn iddo fe.

WES: Fydde fe ddim. (CURIAD) Dwi'n gorfod crasho ble fi fod weithie,
OK?

ELS: Fi ddim isie mynd adre.

WES: Fi'n ca'l hasl 'da'r gweithiwr cymdeithasol os fi ddim yn troi lan, a ti
ddim isie byw fan hyn wyt ti?

ELS: Ma' fe'n well na 'nhŷ fi.

WES: Nag yw ddim Els.

ELS: Ydy ma' fe.

WES: Ma'ch tŷ chi'n masif. Dwi 'di ei weld e.

ELS: Beth?

WES: Galwes i rownd. Paid poeni. Doedd neb i mewn.

ELS: *Stalker!* (CURIAD) *Yeah.* Ok. Tŷ mawr. *So what?*

WES: *So what?*

ELS: Ma' nhw'n pigo arna i drwy'r amser gatre.

WES: Fi'n gwybod.

ELS: *Mental cruelty* dwi'n dweud 'thot ti.

WES: *Yeah,* fi'n gwybod Els!

ELS: Maen nhw'n meddwl 'u bo nhw'n berchen arna i. Fod 'da nhw'r hawl i benderfynu popeth. Sdim llonydd i'w gael. (CURIAD) Plis gaf i aros fan hyn, 'da ti? Plis Wes?

WES: Pam mae popeth bob amser amdanat ti?

ELS: Beth?

WES: O dim byd.

ELIN: Na! Be ddwedaist ti?

WES: Dim byd. (CURIAD) Wna i ofyn i Ben, OK?

ELS: Wnei di?

WES: *Yeah.* (SAIB) Dwi'n gwybod shwt ti'n teimlo Els.

ELS: Ti yw'r unig un sy'n deall shwt beth yw e.

WES: *Parents from hell.*

SAIB. MAE WES YN CYNNIG FODCA I ELIN.

Ti isie peth?

ELS: OK!

MAE HI'N YFED OND YN PESYCHU.

WES: Ti dal ddim yn hoffi fe wyt ti?

ELS: Na. Ond dwi'n hoffi anghofio am bawb sy'n haslo fi.

WES: *Yeah.* O's arian 'da ti?

ELS: *Control freaks.*

WES: Els?

ELS: (YN YFED MWY ETO) – *Thought police.*

WES: Els!

ELS: By'n nhw'n sori!

WES: O's arian 'da ti?

ELS: Oes. *Eight quid.* Arian cinio. Pam?

WES: O leia' ma'n nhw'n cofio dy fwydo di!

ELS: *God!* Bydde Mam yn dod i'r ysgol a 'mwydo fi ei hunan, 'da llwy, os bydde hi'n ca'l.

WES: Ma' peth arian 'da fi 'fyd, *so ...*

ELS: (YN YFED MWY O FODCA) Gwneud yn siŵr bo fi'n bwyta'n deidi. Dim sglodion, dim creision, a beth bynnag ddigwyddith, dim diodydd *fizzy!*

WES: (YN CIPIO'R BOTEL FODCA) *Good job* fod fodca ddim yn *fizzy* 'ta!

- ELS: Ie. (CURIAD) *Sad!* Dwi ddim isie bod fel Mam pan fi'n tyfu lan.
- WES: Dwi ddim isie bod fel Dad! (CURIAD) Ti ddim isie cinio ysgol-
wythnos hyn wyt ti?
- ELS: (WEDI DRYSU) Nag 'w i?
- WES: Na. Drwg i ti! A ma' *day off* 'da ti o'r ysgol heddi.
- ELS: O's e? Cŵl! Pam? ?
- WES: (YN BETRUS) Dwi'n gwybod ble gallwn ni brynu rhywbeth.
- ELS: (YN ANSICR) O! Wyt ti? (CURIAD) O dwi'm yn siŵr Wes.
- WES: Dim byd *heavy*. Ti isie? - *ynneud pelhau cyffwrdd felle*
- ELS: (YN ANSICR) Wel ... dim ond os wyt ti'n addo edrych ar fy ôl i.
- WES: Hei! Bydd *Super* Wes yn gwneud ei orau! Reit! *Mission*. Ffonia i'r bois.
Wyt ti'n gallu dreifo?
- ELS: Nagw!
- WES: Na? O! – Ti isie dysgu?

YSTAFELL WELY RHYS. MAE'R CERDDOR YN CHWARAE 'I BELIEVE IN A THING CALLED LOVE' – *THE DARKNESS*. MAE'R GERDDORIAETH YN UCHEL, AC MAE RHYS YN CANU AMBELL GYMAL, A CHWARAE GITÂR AWYR ETC. MAE'N CLYWED EI FAM YN GWEIDDI ARNO I DAWELU'R SWN.

RHYS: (YN GWEIDDI ATEB DIAMYNEDD) OK Mam! Sori! (CURIAD) (YN GWRANDO. YN ATEB) *Darkness*. (CURIAD) (YN GWRANDO) Nac'dach? Dwi yn! (CURIAD) (YN GWRANDO) OK! Wna i ei droi i lawr!

MAE'R GERDDORIAETH YN TAWELU WRTH I RHYS OSTWNG Y SAIN. MAE'N MYND DRAW AT EI LINIADUR.

(YN TEIPIO)

Chocolatechip@hotmail.co.uk

(CURIAD)

Els,
Attachment i chdi. Gwaith gollest ti wythnos diwetha'. Lle oedda chdi?
Yeah, dwi'n gwybod Dwi'n *sad*!

SAIB.

(YN TEIPIO)

Un o fois y *Darkness* yn *bulimic*. Wedi cyfaddef yn *Hello!* Copi chwaer fi! *Obviously!* Isio i bobl wybod bod bwyta gormod a chwydu yn *boy thing too*. Dwi'n meddwl 'mod i'n *bulimic* – jyst bo fi'm yn gwneud y chwydu *bit*. Ho ho ho ho!

(YN MEDDWL YN UCHEL)

So?

(YN TEIPIO)

Wyt ti efo dy *druggy no good fat ugly freak brain arse pain* – God dwi'n
'i gasáu o – *boyfriend*, heno?

(YN MEDDWL YN UCHEL)

Delete! Os w't ti isio cadw dy *balls* Rhys. *You never know. They might
come in useful one day!*

(YN TEIPIO)

Os wyt ti ddim efo Wes heno, cysyllta. Dim *credit* ar fy ffôn i.
Rhys – *love-god* – Evans.

(YN MEDDWL YN UCHEL)

Na. *Delete. Definitely delete!* Jyst (YN TEIPIO) Rhys.

(YN MEDDWL YN UCHEL) *Send.*

MAE'N EDRYCH O AMGYLCH Y STAFELL YN UNIG. MAE'N
GWEIDDI I LAWYR AT EI FAM.

(YN GWEIDDI) Mam! Mam! Ga i *hot chocolate*?

(CURIAD) (YN GWRANDO) O! *Mean!*